2003/2004

# Llythyr Archwilio Blynyddol

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Y TU MEWN I'R LLYTHYR HWN


**TUDALENNAU 3-6**

- Negeseuon allweddol ar gyfer aelodau
- Cyflwyniad
- Diben y llythyr hwn
- Amcanion archwilio

**TUDALENNAU 7-13**

**Adran 1:**

- Cyfrifon

**Adran 2:**

- Agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol

**Adran 3:**

- Defnydd o adnoddau

**Adran 4:**

- Sylwadau i gloi

**TUDALENNAU 14-17**

**Atodiadau**

- Adroddiadau a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn
- Adroddiad yr Archwiliwr ar y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer 2004/2005


| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod:** | 1275A2004W |
| **Awdur:** | Anthony Barrett |
| **Dyddiad:** | Rhagfyr 2004 |

# NEGESEUON ALLWEDDOL AR GYFER AELODAU

## Cyfrifon

*Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi barn ddiamod ar y cyfrifon erbyn 31 Rhagfyr 2004, yn unol â'r amserlen statudol.*

## Agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol

*Roedd y gwariant refeniw yn unol â'r cyfraniad a wnaed gan awdurdodau cyfansoddol yn 2003/2004.*

*Mae'r Fantolen derfynol yn cynnwys dros £3 miliwn a gadwyd i fodloni'r gwariant rhagweledig yn 2004/2005 ac yn y dyfodol.*

*Y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn oedd £936,000. Ariannwyd y gwariant drwy ddefnyddio'r cymeradwyaethau credyd sylfaenol a oedd ar gael a £22,000 o dderbynebion cyfalaf defnyddiadwy.*

*Ein casgliad cyffredinol yw bod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu priodol ar waith.*

## Defnydd o adnoddau

*Cadarnhaodd ein hadolygiad o Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2004/2005:*

- *ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol;*
- *y cyfrifir dangosyddion perfformiad yn gyson ac yn gywir.*

## Cyflwyniad

1. Mae'r gwasanaeth tân ac achub yn mynd trwy gyfnod o newid sylweddol. Yn dilyn adroddiad Bain, daeth y trafodaethau ynglyn a chyflogau ac amodau y gwasanaeth tân i ben ar 13 Mehefin 2003 a cafodd y cytundeb ei gyhoeddi gan y Cyd Gyngor Cenedlaethol. Yn dilyn hyn, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn 'Our Fire and Rescue Service' (30 Mehefin 2003). Cadarnhaodd hyn y cyfeiriad oedd i'w ddilyn i foderneiddio'r gwasanaeth.
2. Roedd gweithredu'r agenda foderneiddio yn rhoi pwysau cynyddol ar yr Aelodau a'r Swyddogion. Yn benodol, mae hi wedi ei gwneud yn ofynol i'r Awdurdod i baratoi Cynllun Rheoli Risgiau Integredig, datblygu strategaeth er mwyn symud o Radd i Rôl a chyflwyniad System Datblygiad Personol Integredig. Yn ogystal â hyn bu'n rhaid i'r Awdurdod ddelio gyda effeithiau yr anghydfod diwydiannol.
3. Mae maint cymharol fach Awdurdod Tân Gogledd Cymru, yn golygu fod nifer o'i gyfrifoldebau yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth a cyrff cyhoeddus eraill. Mae'r Gwasanaethau Cyfrifo yn cael eu darparu o dan gytundeb lefel gwasanaeth gan Adran Gyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Eiddo yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn Drysorydd i'r Awdurdod Tân a'n Swyddog Adran 151. Mae'r swyddogaeth Archwiliad Mewnol yn cael ei ddarparu gan Adran Archwiliad Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael eu darparu o dan gytundeb lefel gwasanaeth gan Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych. Mae Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, yn Glerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod Tân.
4. Yn ystod mis Tachwedd 2004, dirprwywyd y cyfrifoldeb ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru, gan greu un llinell o gyfrifoldeb ar gyfer yr awdurdodau Tân a chan gyfrannu at y gwaith o reoli, cynllunio a darparu gwasanaethau tân yng Nghymru yn effeithiol.
5. Mae Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywiad y Cynulliad wedi ymgynghori ar Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru sy'n nodi'n glir y polisi a'r cyfeiriad ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru a phatrwm ar gyfer blaengynllunio a chydllidebu gan yr awdurdodau Tân ac Achub. Fel rhan o'r fframwaith hwnnw, bydd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn dod yn gyfrifol am arolygu'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn annibynnol a gaiff ei gynnal drwy Swyddfa Archwilio newydd Cymru.
6. Mae'r fframwaith yn nodi y bydd y Gwasanaethau Tân ac Achub yn amodol ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella a bydd y Cynulliad yn ymgynghori maes o law ar yr ymagwedd fanwl tuag at Raglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub. Datblygwyd hwn mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru, yr awdurdodau Tân ac Achub a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn amodol ar ganlyniad yr ymarfer hwnnw, caiff y fframwaith ei derfynu er mwyn ei roi ar waith o 1 Ebrill 2005 ymlaen ac fe'i ategir gan ganllawiau gweithredu'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

## Diben y Llythyr hwn


7. Mae’r Llythyr Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi i aelodau y materion pwysicaf sy’n deillio o’n harchwiliad ar gyfer 2003/2004, ynghyd â sylwadau ar faterion cyfredol eraill, gan gynnwys y gwaith a gwblhawyd ar Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau’r Awdurdod ar gyfer 2004/2005. Cynhyrchwyd adroddiadau ar wahân gennym ar agweddau penodol ar ein gwaith, ac mae’r rhain wedi’u trafod â swyddogion a’u cyflwyno i aelodau. Rhestrir yr adroddiadau hyn yn Atodiad 1.
8. Mae’r Comisiwn Archwilio wedi dosbarthu datganiad i bob corff a archwilir sy’n crynhoi cyfrifoldebau allweddol yr archwilwyr. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â’r egwyddorion a nodwyd yn y datganiad hwnnw. Dylid ystyried yr hyn a ddywedwn am ganlyniadau’r archwiliad yng nghyd-destun y cefndir mwy ffurfiol hwnnw.

## Amcanion archwilio

9. Aeth yr archwiliad i’r afael â gofynion y Cod Ymarfer Archwilio drwy fabwysiadu ymagwedd tuag at gynllunio sy’n seiliedig ar risgiau. Canolbwyntiodd ar y risgiau ariannol a gweithredol sylweddol perthnasol y mae’r Awdurdod yn eu hwynebu. Mae’r trefniadau llywodraethu corfforaethol a weithredwyd gan yr Awdurdod yn ystyriaethau canolog yn ystod yr archwiliad.

**ARDDANGOSYN 1: MODEL ARCHWILIAD CYHOEDDUS**

Barn




Defnydd o adnoddau
Rhaglen Gwella Cymru/
Gwerth Gorau

Cyfreithlondebtrafodion ariannol
Sefyllfa ariannol
Systemau o reolaeth ariannol mewnol
Safonau o ymddygiad ariannol, twyll a llygredd

## Ffi archwilio

10. Y ffi gyfunol gytûn ar gyfer Cod Ymarfer Archwilio 2002/2003 a 2003/2004 oedd £80,697. Dadansoddwyd y ffi archwilio ar gyfer y tri maes Cod Ymarfer fel a ganlyn:

| Maes y Cod Ymarfer | Ffi arfaethedig 2002-2004 | Ffi wirioneddol a ddisgwylir 2002-2004 |
|---|---|---|
| Cyfrifon | £20,349 | £20,349 |
| Agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol | £31,271 | £31,271 |
| Perfformiad | £29,077 | £29,077 |
| Cyfanswm y ffi | £80,697 | £80,697 |

11. Ni wnaed unrhyw daliadau ychwanegol o ran y gwaith o ardystio grantiau ac enillion y Llywodraeth.
12. Mae’r Cynllun Archwilio ar gyfer 2004/2005 wedi cael ei drafod a’i gytuno gan swyddogion. Y ffi yw £46,149.
13. Yn ystod blwyddyn archwilio 2003/2004 cynhaliodd y Comisiwn Archwilio Gam 1 o astudiaeth o dan Adran 33 Deddf Comisiwn Archwilio 1998 i asesu cynnydd wrth weithredu’r gwaith o foderneiddio’r Gwasanaeth Tân yn unol â’r newidiadau a amlinellwyd yn y Cytundeb Cyflog Cenedlaethol. Cynhaliwyd yr astudiaeth honno gan archwilydd apwyntiedig a oedd yn ymddwyn fel asiant y Comisiwn Archwilio ac nid o dan y Côd Ymarfer Archwilio ac fe’i biliwyd ar wahân i’r archwiliad o’r Cod Ymarfer Archwilio. Y ffi a godwyd ar gyfer Cam 1 yr astudiaeth oedd £19,000.

## Cyfieithiad

14. Mae’r Llythyr hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg a darparwyd copïau i’r Awdurdod ac i bob Aelod o’r Awdurdod.

# Cyfrifon

*Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi barn ddiamod ar y cyfrifon erbyn 31 Rhagfyr 2004, yn unol â'r amserlen statudol.*

## Adolygiad o brosesau craidd

15. Ein casgliad cyffredinol yw bod eich prosesau ariannol craidd yn darparu sail gadarn ar gyfer y gwaith o baratoi datganiadau ariannol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o le i wella ansawdd y cyfrifon drafft ymhellach.

## Datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau

16. Mae'r Awdurdod wedi parhau â'i record gwych o gynhyrchu'r datganiadau ariannol ymhell o fewn y dyddiau cau statudol. Cymeradwywyd datganiadau ariannol 2003/2004 gan aelodau cyn diwedd mis Gorffennaf 2004. Golyga hyn fod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda i weithredu gofynion Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan i gymeradwyo datganiadau ariannol 2006/2007 erbyn diwedd mis Mehefin 2007 ac i'w cyhoeddi erbyn diwedd mis Medi 2007.
17. Trafodwyd rhai materion â swyddogion yn ystod ein hadolygiad a gwnaed rhai addasiadau i'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd ar gyfer archwiliad. Mae'r archwiliad o'r datganiadau ariannol wedi'i gwblhau a gallwn gadarnhau nad ydynt, yn ein barn ni, yn cynnwys gwallau a chamddatganiadau perthnasol. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi barn ddiamod ar y datganiadau ariannol cyn 31 Rhagfyr 2004, yn unol â'r amserlen statudol.
18. Cyhoeddwyd Datganiad Safonau Archwilio 610 (SAS 610) 'Cyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' i osod safonau a darparu canllawiau ar y gwaith o gyfathrebu materion perthnasol sy'n gysylltiedig ag archwilio datganiadau ariannol rhwng archwilwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu corff archwiliedig. Mae'r safon yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr gyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (yn wahanol i reolwyr) am faterion penodol cyn iddynt roi barn ar y datganiadau ariannol. Ymhlith y materion perthnasol hyn mae:
    - cydberthnasau a allai effeithio ar annibynniaeth yr archwilwyr;
    - gwybodaeth am gynllunio archwiliadau; a
    - canfyddiadau o'r archwiliad, gan gynnwys barn yr archwilwyr ar agweddau ansoddol ar systemau cyfrifyddu a chyflwyno adroddiadau'r endid.
19. Cyflwynwyd adroddiadau ar y ddau fater cyntaf i chi yn y Cynllun Archwilio. Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 20 Rhagfyr 2004, gobeithiwn gadarnhau ein bod yn rhagweld y byddwn yn cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol. Byddwn yn tynnu sylw'r aelodau at symiau a gadwyd ym Mantolen yr Awdurdod o ran Atebolrwyddau Pensiwn, Dyfarniad Cyflog, y system Adnoddau Dynol a Chronfeydd Trosiannol (gweler paragraffau 17 i 23 yn Adran 2 y Llythyr hwn). Byddwn hefyd yn cadarnhau nad oedd unrhyw faterion eraill ychwaith yr oedd angen i ni dynnu sylw'r aelodau atynt.

ADRAN 2

# Agweddau ariannol ar lywodraethu corfforaethol

*Roedd y gwariant refeniw yn unol â'r cyfraniad a wnaed gan yr awdurdodau cyfansoddol yn 2003/2004.*

*Mae'r Fantolen derfynol yn cynnwys dros £3 miliwn a gadwyd i fodloni'r gwariant rhagweledig yn 2004/2004 ac yn y dyfodol.*

*Y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn oedd £936,000. Ariannwyd y gwariant hwnnw drwy ddefnyddio'r Cymeradwyaethau Credyd Sylfaenol a oedd ar gael a £22,000 o dderbynebion cyfalaf defnyddiadwy.*

*Ein casgliad cyffredinol yw bod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu priodol ar waith.*

## Trefniadau cyffredinol

20. Rydym yn fodlon bod gan yr Awdurdod Reolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol ar waith i ddarparu trefniadau llywodraethu cadarn. Cafodd y trefniadau eu gwella drwy gyflwyno cynllun cadw a dirprwyo.

## Sefyllfa ariannol

### Cyfrif refeniw

21. Gwariant gwirioneddol yn 2003/2004 oedd £25.198 miliwn, yn dilyn cynnydd o £0.160 miliwn yn y Ddarpariaeth ar gyfer Atebolrwyddau Pensiwn yn unol â pholisi'r Awdurdod. Roedd y gwariant gwirioneddol felly £0.106 miliwn yn llai na'r swm a godwyd ar yr awdurdodau cyfansoddiadol, sef £25.304 miliwn.

22. Roedd y gyllideb ar gyfer 2003/2004 yn cynnwys £0.100 miliwn ar gyfer system Rheoli Adnoddau Dynol newydd. Oedwyd y gwaith o brynu'r system newydd hon ac fe'i gwneir bellach yn 2004/2005. Felly mae'r £0.100 miliwn wedi cael ei gario drosodd i 2004/2005. Cadwyd balans y tanwariant, sef £0.006 miliwn i gynorthwyo'r gwaith o ad-dalu'r cronfeydd trosiannol a ddarperir gan y Cynulliad.

23. Mae'r Awdurdod hefyd wedi gwneud addasiadau i symiau a gadwyd hyd at 31 Mawrth 2003 yn ystod 2003/2004. Ar 31 Mawrth 2004, roedd yr Awdurdod yn cadw'r symiau canlynol:

| Diben | Gwerth (£'000) |
|---|---|
| Atebolrwyddau Pensiwn | 1,955 |
| Dyfarniad Cyflog | 954 |
| Ad-dalu Arian Trosiannol | 281 |
| Prynu system Rheoli Adnoddau Dynol | 100 |

24. Datgelir y symiau uchod fel 'Darpariaethau' ym Mantolen yr Awdurdod. Mae Datganiad o'r Arfer a Argymhellir CIPFA (SoRP), sy'n cydymffurfio â Safon Adroddiad Ariannol 12, yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gael ei gwneud pan fydd gan awdurdod rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu adeiladol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Mae Nodyn 10 y Fantolen wedi'i Chydgrynhoi (CBS) yn egluro bod y Darpariaethau a gedwid gan yr Awdurdod yn mynd i fodloni gwariant y dyfodol, yn hytrach na gwariant y gorffennol, y bydd yn bendant, neu'n debygol o fynd iddo.

25. Diben y swm a gedwid o ran Atebolrwyddau Pensiwn yw llyfnhau effaith amrywiaethau o ran talu cyfandaliadau pensiwn ar yr awdurdodau cyfansoddiadol. Mae Cyfarwyddwyr Cyllid yr awdurdodau cyfansoddiadol wedi arnodi'r trefniant hwn.

26. Mae'r swm a gadwyd ar gyfer y Dyfarniad Cyflog yn mynd i dalu am y costau ychwanegol a gododd yn sgîl y setliad cyflog, a thrwy hynny yn osgoi cynnydd sylweddol yn y cyfraniad a ddisgwylir gan awdurdodau cyfansoddiadol yn 2004/2005. Mae amcanestyniadau presennol yn arwyddo bod y mwyafrif o'r swm hwn yn debygol o gael ei ddefnyddio yn ystod 2004/2005.

27. Ni fydd angen y swm a gedwid o ran y Cronfeydd Trosiannol mwyach, oherwydd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'n ddiweddar nad oes angen eu had-dalu. Felly, bydd yr Awdurdod yn adolygu'r angen am yr arian hwn yn barhaus ac yn addasu'r ardoll a wnaed ar awdurdodau cyfansoddiadol fel y bo'n briodol yn y dyfodol.

28. Er nad yw'r symiau a gadwyd yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad o'r Arferion a Argymhellir, derbynnir bod yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod yn ddarbodus ac yn eglur. Mae'r awdurdodau cyfansoddiadol yn ymwybodol o'r trefniadau ac yn fodlon arnynt. Ymagwedd arall, a fyddai'n cydymffurfio â'r Datganiad hwn fyddai dangos unrhyw symiau nas gwariwyd fel credydwyr. Fodd bynnag, byddai hynny'n llawer llai eglur na'r trefniant presennol, gan na fyddai'r arian yn cael ei ad-dalu mewn gwirionedd.

29. Mae'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ac awdurdodau Tân eraill yng Nghymru yn codi o'r ffaith eu bod wedi'u gwahardd ar hyn o bryd rhag cadw cronfeydd refeniw wrth gefn. Rydym yn rhagweld y byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdodau Tân yng Nghymru i reoleiddio'r sefyllfa yn y dyfodol.

### Rhaglen gyfalaf

30. Cyfanswm Cymeradwyaeth Credyd Sylfaenol yr Awdurdod ar gyfer 2003/2004 oedd £0.709 miliwn. Arweiniodd yr elw o £0.227 miliwn a drosglwyddwyd i Gyngor Dinas Casnewydd o ganlyniad i danwariant yn 2002/2003, at £0.936 miliwn o Gymeradwyaeth Credyd Sylfaenol a oedd ar gael yn 2003/2004.

31. Y gwariant gwirioneddol ar brosiectau cyfalaf yn 2003/2004 oedd £0.958 miliwn. Yn dilyn y gwaith o ddefnyddio'r Gymeradwyaeth Credyd Sylfaenol a oedd ar gael, ariannwyd y balans, sef £0.022 miliwn drwy dderbynebion cyfalaf defnyddiadwy.

## Rheoli risgiau

32. Datblygodd yr Awdurdod Gynllun Rheoli Risgiau Integredig yn unol â gofynion yr Agenda Foderneiddio. O gofio'r ffaith bod rheoli risgiau yn elfen allweddol o'r Astudiaeth Ddilysu yr ymgymerwyd â hi gan y Comisiwn Archwilio yn 2003/2004, gohiriwyd y gwaith bwriadedig o ran Rheoli Risgiau. Byddwn yn adolygu'r materion rheoli risgiau ehangach drwy ein gwaith sy'n ymwneud ag agenda Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

## Cyfreithlondeb trafodion ariannol

33. Rydym yn fodlon bod y trefniadau cyffredinol i sicrhau cyfreithlondeb trafodion ariannol yn briodol.

34. Nid ydym wedi derbyn unrhyw gwestiynau na gwrthwynebiadau gan aelodau'r cyhoedd sy'n ymwneud â chyfrifon yr Awdurdod.

## Systemau rheolaeth ariannol fewnol

### Trefniadau cyffredinol

35. Rydym yn fodlon bod y systemau rheolaeth ariannol fewnol a weithredir gan yr Awdurdod yn briodol i sicrhau y cedwir cofnodion cyfrifyddu priodol. Roeddem wedi bwriadu gwneud gwaith dilynol ar faterion a ddeilliodd o adolygiad blaenorol o drefniadau sy'n gysylltiedig ag absenoldeb oherwydd salwch. Caiff y gwaith hwnnw ei wneud yn ystod y misoedd nesaf bellach.

### Archwiliad mewnol

36. Rydym yn fodlon bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi darparu swyddogaeth Archwiliad Mewnol effeithiol i'r Awdurdod Tân yn 2003/2004. Aethpwyd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn ystod archwiliad 2002/2003 a oedd yn ymwneud â mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar risgiau tuag at gynllunio archwiliadau ac amlygu adolygiadau. Yn ogystal â hyn, darparodd yr Archwiliwr Mewnol Ddatganiad Sicrwydd i'r Trysorydd a oedd yn ymwneud â rheolaethau ariannol mewnol, yn unol ag argymhellion a wnaed yn Llythyr Archwilio Blynyddol y llynedd.

## Safonau rheolaeth ariannol ac atal a chanfod twyll a llygredd

37. Daeth ein gwaith ar ddiweddaru ein hasesiad o'r trefniadau a weithredir gan yr Awdurdod i nodi risgiau twyll a llygredd, i'r casgliad bod y trefniadau hynny yn gyffredinol gadarn. Fodd bynnag, mae lle i wella ymwybyddiaeth staff o ddarpariaethau Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd.

# Defnydd o adnoddau

*Cadarnhaodd ein hadolygiad o Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2004/2005:*

- *ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol; ac*
- *y caiff dangosyddion perfformiad eu cyfrifo yn gyson ac yn gywir.*

## Gwerth Gorau

38. Parhaodd yr Awdurdod i weithredu o fewn fframwaith gwerth gorau awdurdodau Tân Cymru a Lloegr yn 2003/2004, tra'n bod yn ystyriol o Raglen Wella ar gyfer llywodraeth leol Llywodraeth Cynulliad Cymru.
39. Yn dilyn deddfu Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ddiweddar, a throsglwyddo cyfrifoldeb dros y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd yr Awdurdod yn gweithredu o fewn fframwaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yn y dyfodol.
40. Cadarnhaodd ein hadolygiad o Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2004/2005 ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol. Mae ein hadroddiad statudol ar y Cynllun, y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gyhoeddi o fewn 30 diwrnod i ddyddiad y Llythyr hwn, wedi'i atodi yn Atodiad 2.

## Perfformiad

### Dangosyddion perfformiad

41. Daeth ein hadolygiad o'r wybodaeth perfformiad a geir yn y Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau i'r casgliad bod yr holl ddangosyddion perfformiad wedi'u cyfrifo'n gyson ac yn gywir, ac eithrio mân anghysondebau.
42. Mae'r targedau a bennwyd ar gyfer 2004/2005 yn adlewyrchu amgylchiadau lleol yn gyffredinol, ond maent yn parhau i fod yn heriol.
43. Mae'r Awdurdod wedi cyflawni gwelliant mewn perfformiad rhwng 2002/2003 a 2003/2004 mewn nifer o feysydd allweddol, yn benodol:
    - diwrnodau gwaith/sifftiau a gollwyd oherwydd salwch;
    - canran o staff mewn gwisg o leiafrifoedd ethnig;
    - gostyngiad yn y nifer o danau sylfaenol fesul 10,000 o'r boblogaeth;
    - gostyngiad yn y nifer o danau trwy ddamwain mewn preswylfeydd fesul 10,000 o'r boblogaeth;
    - gostyngiad yn y nifer o anafiadau o danau trwy ddamwain fesul 10,000 o'r boblogaeth;
    - cynydd yn y canran o danau trwy ddamwain mewn preswylfeydd a gafodd eu cyfyngu i'r staffell ble ddechreuodd y tân;
    - gostyngiad yn y cyfartaledd o ddyddiau i gyhoeddi tystysgrifau diogelwch.
44. Ceir hefyd meysydd ble nad yw perfformiad yr Awdurdod wedi gwella. Mae angen datblygu mentrau sydd wedi eu cynllunio i fynd i'r afael a'r materion yma.

**Gwaith arall**

45. Cynlluniwyd trosolwg hefyd ar gyfer 2002-2004 o ymagwedd yr Awdurdod tuag at weithio mewn partneriaeth. Mae hwn yn fater a gynhwyswyd yn y gwaith ar yr Astudiaeth Ddilysu a wnaed gennym ar ran y Comisiwn Archwilio ac felly achubwyd ar y cyfle i adolygu'r trefniadau sydd gan yr Awdurdod ar waith. Daethom i'r casgliad bod gan yr Awdurdod agwedd gadarnhaol tuag at weithio mewn partneriaeth.
Mae'r Awdurdod wedi cael cydberthynas gydweithiol hirsefydlog â'r ddau awdurdod tân arall yng Nghymru ac mae'n ymrwymedig i gydweithio a chreu partneriaeth barhaus â hwy.


46. Cadarnhawyd hefyd bod yr Awdurdod yn cyfrannu'n helaeth at agendâu cyffredinol cynhwysiant cymdeithasol, adnewyddu cymdogaeth a gostwng troseddau. Mae'n aelod cyfranogol gweithgar o Grwp Prif Swyddogion Diogelwch Cymunedau Gogledd Cymru, fforwm ymarferwyr ei is-gwmni a gweithgorau cysylltiedig a'r grwpiau cymunedol lleol o fewn pob ardal awdurdod unedol sy'n ymdrin â throseddau, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, Cymunedau'n Gyntaf a chynhwysiant cymdeithasol.

47. Mae'r ymagwedd strategol tuag at bartneriaeth yn seiliedig ar yr egwyddor hollbwysig y caniateir i reolwyr lleol gynorthwyo ac ymrwymo i'r bartneriaeth ar ran yr Awdurdod ar yr amod bod amcanion y bartneriaeth yn gyson â nodau ac amcanion yr Awdurdod Tân ac y bydd yn cynorthwyo yn y gwaith o ddiwallu anghenion a adnabyddir yn lleol.

ADRAN 4

## Sylwadau i gloi

Yn olaf, hoffem achub ar y cyfle hwn i fynegi ein gwerthfawrogiad am y cymorth a roddwyd gan swyddogion ac aelodau yn ystod ein gwaith. Ein nod yw darparu archwiliad ac arolygiad o safon uchel sy’n gwneud cyfraniad ymarferol a chadarnhaol i waith Awdurdod Tân Gogledd Cymru. Cydnabyddwn werth eich cydweithrediad a’ch cymorth i gyflawni’r nod hwn.



**Anthony Barrett**
**Archwiliwr Dosbarth**
**13 Rhagfyr 2004**

ATODIAD 1

# Atodlen yr adroddiadau a gyhoeddwyd ar gyfer 2003/2004

| Adroddiad | Dyddiad |
| --- | --- |
| Memorandwm Rheoleiddio | Tachwedd 2004 (Drafft) |
| Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2004/2005 | Rhagfyr 2004 (Terfynol) |
| Memorandwm Cyfrifon Terfynol | Rhagfyr 2004 (Drafft) |

ATODIAD 2

# Adroddiad yr Archwiliwr i Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar ei Gynllun Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer 2004/2005

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unol ag adran 7 Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Chod Ymarfer Archwilio'r Comisiwn Archwilio. Ystyriais ganllawiau atodol hefyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio.

## Cyfrifoldebau Priodol yr Awdurdod a'r Archwiliwr

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (y Ddeddf) mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi cynllun perfformiad gwerth gorau sy'n crynhoi asesiadau'r Awdurdod o'i berfformiad a'i sefyllfa o ran ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus o ran y ffordd yr arferir ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol am baratoi'r cynllun ac am y wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo. Yr Awdurdod sydd hefyd yn gyfrifol am sefydlu systemau rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol priodol y daw'r wybodaeth a'r asesiadau yn ei gynllun ohonynt. Pennir ffurf a chynnwys y cynllun perfformiad gwerth gorau yn adran 6 y Ddeddf a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth.

Fel archwiliwr yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adran 7 y Ddeddf, gynnal archwiliad o'r cynllun perfformiad gwerth gorau, er mwyn ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a:

- chyflwyno adroddiad ar p'un a wyf o'r farn i'r cynllun gael ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 6 y Ddeddf a chanllawiau statudol a, lle y bo'n briodol, argymell sut y dylid addasu'r cynllun er mwyn iddo gydymffurfio â gofynion statudol;
- argymell:
  - lle y bo'n briodol, gweithdrefnau y dylid eu dilyn o ran y cynllun;
  - p'un a ddylai'r Comisiwn Archwilio gynnal arolygiad gwerth gorau o'r Awdurdod o dan adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 1999;
  - p'un a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd o dan adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999.

## Barn

### Sail y farn hon

Er mwyn llunio fy marn o ran p'un a gafodd y cynllun ei baratoi a'i gyhoeddi yn unol â deddfwriaeth a chan ystyried canllawiau statudol, cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Chod Ymarfer Archwilio'r Comisiwn Archwilio. Wrth gyflawni fy ngwaith archwilio, ystyriais hefyd ganllawiau atodol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Archwilio.

Cynlluniais fy ngwaith a'i berfformio i gael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i, er mwyn darparu barn ar p'un a baratowyd a chyhoeddwyd y cynllun yn unol â gofynion statudol.

Wrth roi fy marn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnder neu gywirdeb y wybodaeth neu ar realaeth a'r gallu i gyflawni'r asesiadau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Roedd fy ngwaith felly, yn cynnwys adolygiad ac asesiad o'r cynllun a lle y bo'n briodol, archwiliad yn seiliedig ar brofion o dystiolaeth berthnasol, sy'n ddigon i'm bodloni bod y cynllun yn cynnwys y materion hynny a bennwyd yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol a bod y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

Mae amcangyfrifon yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2004 wedi'u cynnwys yn y cynllun. Mae'r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn yn debygol o fod yn wahanol i'r ffigurau a nodwyd, oherwydd nad yw digwyddiadau ac amgylchiadau yn digwydd yn aml yn ôl y disgwyl, a gall y gwahaniaethau fod yn berthnasol. I'r graddau bod y ffigurau a geir yn y cynllun yn amcangyfrifon, roedd fy ngwaith cynllunio yn cynnwys asesiad a oedd yn ymwneud â ph'un a gynhwyswyd yr amcangyfrifon a wnaed gan yr Awdurdod yn briodol ym mhob achos ar sail y tybiaethau a nodwyd gan yr Awdurdod, ar y dyddiad y paratowyd y cynllun.

Lle yr wyf wedi cymhwyso fy marn archwilio ar y cynllun, mae'n ofynnol i mi argymell sut y dylid addasu'r cynllun er mwyn iddo gydymffurfio ymhob agwedd arwyddocaol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol.

### Barn ddiamod


Yn fy marn i, mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi paratoi a chyhoeddi ei gynllun perfformiad gwerth gorau ymhob agwedd arwyddocaol yn unol ag adran 6 Deddf Llywodraeth Leol 1999 a chanllawiau statudol a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth.

**Argymhellion ar gyfeirio i'r Comisiwn Archwilio/Ysgrifennydd Gwladol**

Mae'n ofynnol i mi argymell bob blwyddyn p'un a ddylai'r Comisiwn Archwilio, ar sail fy ngwaith archwilio, gynnal arolygiad gwerth gorau o'r Awdurdod neu p'un a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd.

Ar sail fy ngwaith/ein gwaith:

- Nid wyf yn argymell y dylai'r Comisiwn Archwilio gynnal arolygiad gwerth gorau o Awdurdod Tân Gogledd Cymru o dan adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 1999;
- Nid wyf yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddyd o dan adran 15 Deddf Llywodraeth Leol 1999.

Llofnod:  Dyddiad: 13 Rhagfyr 2004